Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

William Powell AC
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

6 Ionawr 2016

Annwyl William

**Deiseb P-04-655: "Mynnu ein hawliau i'r Gymraeg yn y sector preifat"**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Rhagfyr ynghylch y ddeiseb uchod.

Mae eich llythyr yn gofyn am gopi o'r amserlen ar gyfer y camau nesaf wrth gyflwyno safonau'r Gymraeg ar gyfer cyrff yn y sector preifat a gwirfoddol.

Fel y gwyddoch efallai, mae'r broses o gyflwyno safonau wedi digwydd hyd yma mewn cyfres o gylchoedd:

- Mae 26 sefydliad yng Nghylch 1, sef Gweinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.
- Mae 119 o sefydliadau yng Nghylch 2, gan gynnwys byrddau iechyd, colegau a phrifysgolion a chyrff cyhoeddus yng Nghymru.
- Mae'r 64 sefydliad yng Nghylch 3 yn cynnwys darparwyr tai cymdeithasol, adrannau Llywodraeth y DU, cwmnïau dŵr, Grŵp y Post Brenhinol a'r Swyddfa Bost.

Mae copi o amserlen ar gyfer y cylchoedd hyn ar wefan y Comisiynydd ac er mai'r sector gyhoeddus yw mwyafrif helaeth y cyrff dan sylw, mae Cylch 3 yn cynnwys rhai cyrff preifat megis cwmnïau dwr a'r swyddfa bost.

Ar 2 Rhagfyr 2015, cyhoeddais ddatganiad pellach ar fy ngwefan yn egluro'r camau nesaf gyda Chylch 3 a'r rhaglen waith ar gyfer 2016 (mae copi o'r datganiad ynghlwm). Mae'n egluro byddaf yn cychwyn ymchwiliadau safonau gyda sectorau trenau a bysiau yn ystod Mawrth 2016 ac yn cychwyn ymchwiliadau safonau gyda'r sectorau nwy a thrydan yn ystod Mehefin.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Gofynnoch hefyd am fy ymateb i rai cwestiynau hoffai'r deisebwyr i'r Pwyllgor Deisebau eu holi i'r Prif Weinidog, ac yn benodol "rôl Comisiynydd y Gymraeg wrth benderfynu pa fusnesau ddylai gael eu heithrio (o'r amserlen gychwynnol)".

Yn gyntaf, dylwn nodi nad yw honiad y deisebwyr bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i mi hepgor cyrff o'r rhestr yng Nghylch 3 yn gywir. Penderfynais addasu Cylch 3 gyda golwg ar hwyluso'r broses o osod safonau a cheisio sicrhau bod y nifer uchaf posibl o sefydliadau mewn rheoliadau safonau cyn y toriad am etholiadau'r Cynulliad. Rwyf wedi gohebu gyda'r deisebwyr (h.y. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg) ynghylch fy rhaglen waith safonau ar fwy nag un achlysur.

Yn olaf, fy swyddogaeth i fel Comisiynydd yw cynnal ymchwiliadau safonau a phenderfynu sut a phryd i'w cynnal, ond cam cyntaf yn unig y broses o osod safonau yw hynny. Cyn i safonau ddod yn weithredol, mae'n rhaid i mi gyflwyno hysbysiad cydymffurfio sef hysbysiad a roddir i sefydliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio ag un neu fwy o safonau. Ni allaf wneud hynny hyd nes i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau safonau sy'n gwneud safonau'n benodol gymwys i'r sefydliadau dan sylw. Hyd yma daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1), sy'n gwneud safonau'n benodol gymwys i Weinidogion Cymru, cynghorau sir ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol i rym ar 31 Mawrth 2015 ac fe osodwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) gerbron y Cynulliad fis Rhagfyr. Bydd y rheoliadau yma'n gwneud safonau'n benodol gymwys i 32 sefydliad pellach a deallaf bydd pleidlais arnynt yn y Cynulliad fis nesaf.

Hyderaf fod yr ymateb hwn yn delio â'r cwestiynau oedd yn eich llythyr.

Yn gywir

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg